Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

# Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru



"**Mae bwyd yn ein cysylltu â'n gilydd.** Mae'n cyffwrdd â phob agwedd ar ein bywydau bob dydd, yn unigol ac ar y cyd. O'r fferm i'r fforc, mae'r system fwyd yn cefnogi ffyniant economaidd, ein hiechyd corfforol a meddyliol, ac yn helpu i ddod â'n cymunedau at ei gilydd.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid ac wedi gwrando ar eu barn am yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer bwyd lleol. **Yn benodol, rydym yn cydnabod y potensial enfawr i fwyd lleol gyfrannu at les pobl yng Nghymru.**"



# Rhagair



**Huw Irranca-Davies AS**

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru i chi, fel ein hymrwymiad i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol yng Nghymru.

Mae bwyd yn ein cysylltu â'n gilydd. Mae'n cyffwrdd â phob agwedd ar ein bywydau bob dydd, yn unigol ac ar y cyd. O'r fferm i'r fforc, mae'r system fwyd yn cefnogi ffyniant economaidd, ein hiechyd corfforol a meddyliol, ac yn helpu i ddod â'n cymunedau at ei gilydd.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid ac wedi gwrando ar eu barn am yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer bwyd lleol. Yn benodol, rydym yn cydnabod y potensial enfawr i fwyd lleol gyfrannu at les pobl yng Nghymru.

Mae hyn yn golygu gwireddu'r cysylltiad rhwng bwyd a'n cyfrifoldeb, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae cyfleoedd ar gael i annog cyflenwad bwyd lleol trwy adeiladu perthnasoedd rhwng cynhyrchwyr lleol, busnesau bwyd a diod a'r rhwydwaith o fentrau bwyd cymunedol. Dylai'r galw yn y sector cyhoeddus roi hyder i gyflenwyr lleol, fel bod mwy o'r bwyd a brynir yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru. Gellir defnyddio cysylltiadau bwyd gwell o fewn cymunedau i annog dewisiadau bwyd iachach, i fynd i'r afael â thlodi bwyd ac i gefnogi cynhwysiant cymdeithasol.

Yn bwysig, gall annog dulliau cynhyrchu amgylcheddol gyfrifol, trwy dyfu cymunedol a garddwriaeth, ddarparu buddion i'n hamgylchedd naturiol. Mae hyn i gyd yn cyd-fynd â'n huchelgais i gysylltu cymunedau, ysgogi cynnydd ar gyfer Cymru iachach, creu swyddi a thwf gwyrdd, a darparu cyfle i bob teulu.

Dim ond trwy ddull cydweithredol, cydlynus y gellir gwireddu'r potensial i gyflawni'r canlyniadau hyn ac i wneud y mwyaf o'r manteision i'n cymunedau. Ni allwn gyflawni dim ar ein pennau ein hunain. Rhaid i ni hefyd barchu anghenion amrywiol cymunedau ledled Cymru a cheisio galluogi gweithgarwch lleol sydd wedi'i gynllunio i fodloni blaenoriaethau lleol, drwy ddull seiliedig ar leoedd.

Rwy'n croesawu'n fawr yr ymrwymiad i fwyd fel maes ffocws gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a byddaf yn parhau i weithio ar y cyd â'r Comisiynydd i helpu i ymgorffori bwyd fel blaenoriaeth o fewn cynllunio a gwasanaethau lleol.

Fel cam nesaf, rwyf wedi comisiynu grŵp cynghori gweinidogol a fydd yn sicrhau bod yr amcanion o fewn Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru yn cael eu cyflawni, ac yn sefydlu partneriaeth effeithiol a chynhyrchiol gyda'n rhanddeiliaid allweddol.

Yn olaf, ar nodyn personol, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi gweithio gyda ni, ac wedi cyfrannu at y gweithdai, y paneli a'r arolygon amrywiol sydd wedi helpu i greu'r strategaeth hon. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'n gilydd, gydag ymrwymiad ac uchelgais, i ddal gwir werth a manteision bwyd lleol yn llawn.

# Cyflwyniad

Mae'r system fwyd yn effeithio ar bob un ohonom. Mae'n sail i'n hiechyd corfforol a meddyliol, ein ffyniant economaidd, a gall ddod â phobl a chymunedau at ei gilydd. Mae bwyd yn bwysig iawn i gyflawni Cymru iachach ac mae'n rhan annatod o'n cymdeithas a'n diwylliant.

Drwy ddatblygu'r strategaeth hon, rydym wedi ymgysylltu â llawer o'r mentrau bwyd cymunedol bywiog, ymroddedig ac arloesol ledled Cymru. Mae eu gwaith yn dangos yr awydd o fewn ein cymunedau i fynd i'r afael â rhai o'r heriau modern mwyaf dybryd a helpu i leihau tlodi bwyd. Rydym wedi datblygu'r strategaeth hon ochr yn ochr â **Bwyd o Bwys: Cymru** (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024) i ddisgrifio tirwedd strategol dyheadau polisi bwyd Llywodraeth Cymru.

Wrth gwrs, mae'r system fwyd yng Nghymru yn rhan o system fwyd ehangach yn y DU ac yn fyd-eang. Mae'r system hon yn gost-effeithiol iawn; mae'n dosbarthu bwyd yn gyflym ac yn effeithlon yn unol â blaenoriaethau defnyddwyr o ran pris, cyfleustra ac ystod o ddewis.

Mae Covid wedi dysgu inni, fodd bynnag, y gall ansicrwydd ynghylch bwyd gael effaith ddifrifol ar y gadwyn gyflenwi. Gall cyrchu bwyd a chynhwysion trwy gadwyni cyflenwi hir a chymhleth, ynghyd â ffocws ar ddosbarthu a logisteg 'mewn union bryd', olygu ein bod yn agored i siociau'r system fwyd. Mae hyn yn cynnwys siociau a achosir gan ansefydlogrwydd geowleidyddol a digwyddiadau tywydd garw annisgwyl.

Yn y cyfamser, mae cyflenwad bwyd hefyd wrth wraidd sawl mater systemig hirdymor lle mae deiet gwael yn arwain at ordewdra a phroblemau iechyd cysylltiedig. Mae tuedd barhaus tuag at lefelau cynyddol o dlodi bwyd, a gall dulliau cynhyrchu bwyd anghynaliadwy fygwth gwaethygu colli bioamrywiaeth a newid hinsawdd.

Rydym yn cydnabod nad yw ffocws y strategaeth hon yn cynnwys ceisio dylanwadu ar dueddiadau byd-eang. Fodd bynnag, gall cryfhau'r cyflenwad o fwyd lleol ategu'r system fwyd fyd-eang drwy geisio mynd i'r afael â llawer o'r pwysau sy'n gysylltiedig â bwyd sy'n wynebu cymunedau Cymru.

Gall gwella cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol agor cyfleoedd i gynyddu mynediad pobl at fwyd iach, cynaliadwy gyda milltiroedd bwyd, ac wedi'i gynhyrchu mewn ffordd sy'n cefnogi natur. Gall cyflawni hyn ein helpu i leihau tlodi bwyd, atal salwch sy'n gysylltiedig â deiet, a datgloi cyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd mewn economïau lleol.

Os byddwn yn manteisio ar y cyfleoedd clir ac arwyddocaol y gall cynhyrchu bwyd lleol eu cynnig, gyda'n gilydd gallwn roi manteision lles i bobl a chymunedau ledled Cymru.








## Dull sy'n seiliedig ar systemau

Byddwn yn dod â blaenoriaethau polisi at ei gilydd ar draws y llywodraeth i sicrhau manteision lles tymor hir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid trwy grwpiau ffocws arbenigol i greu **'Map Systemau Bwyd Cymunedol'** – i nodi'r problemau a'r cyfleoedd cymhleth a rhyng-gysylltiedig ynghlwm wrth gyflenwad bwyd lleol.

Ni ellir datblygu cyflenwad bwyd lleol a chynyddu cydnerthedd bwyd cymunedol trwy ddull 'o'r brig i lawr' yn unig – rhaid ei adeiladu o'r gwaelod i fyny trwy bartneriaethau a datblygu perthynas a thrwy newid agweddau ac ymddygiad.



# Egwyddorion Gweithredu

## Galluogi gosod cyfeiriad a gweithredu ar lefel leol

Bydd Llywodraeth Cymru yn chwarae rôl alluogi. Bydd llunwyr polisi yn gweld eu rôl fel hwyluswyr, gan gefnogi grwpiau a phartneriaethau presennol i ddatblygu eu gweithgareddau.

## Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le

Mae hyn yn golygu parchu amgylchiadau ac anghenion amrywiol ein cymunedau ledled Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithgarwch cymunedol a chamau gweithredu lleol sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag anghenion lleol.

## Ffurfio ffyrdd newydd o weithio mewn partneriaeth

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth i gefnogi awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus i wthio camau ymlaen. Bydd y strategaeth yn annog cyrff cyhoeddus a sefydliadau cymunedol i gydlynu'n well a gwneud y gorau o gadwyni cyflenwi bwyd.

## Canolbwyntio ar atebion ataliol

Gall Llywodraeth Cymru hyrwyddo manteision posibl cynnyrch lleol ar draws agenda llesiant cymunedol eang. Bydd hyn yn ategu cyflwyno ystod eang o strategaethau Llywodraeth Cymru, megis y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 a Pwysau Iach: Cymru Iach.

## Datblygu camau gweithredu a chyflawni fel rhan o broses barhaus

Bydd grŵp cynghori gweinidogol newydd a phenodol yn darparu arweiniad a goruchwyliaeth effeithiol ar gyfer gweithredu'r Strategaeth Bwyd Cymunedol. Bydd y nodau a'r camau gweithredu yn cael eu hadnewyddu trwy broses barhaus o ymgysylltu a chydweithio.



## Partneriaeth Bwyd RhCT: bwyd maethlon, cynaliadwy a fforddiadwy i bawb

Mae Partneriaeth Bwyd RhCT yn rhwydwaith arobryn o sefydliadau ac unigolion sy'n frwd dros fwyd iach, cynaliadwy a fforddiadwy i bawb. Gyda'r aelodau'n dod o grwpiau cymunedol, cyrff cyhoeddus a busnesau bwyd o bob rhan o'r sir, eu gweledigaeth yw bod gan bob person yn Rhondda Cynon Taf fynediad at fwyd fforddiadwy a maethlon, sydd hefyd yn dda i'r blaned.

A hwythau'n aelod o rwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy y DU gyfan ac wedi ennill gwobr Efydd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, maent wedi gallu datblygu a chynyddu atebion cynaliadwy i gryfhau'r system fwyd leol, a helpu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd. Mae cyllid wedi galluogi grwpiau i drafod syniadau newydd ac arloesol ar gyfer prosiectau bwyd cymunedol. Er enghraifft, prosiectau bwyd yn meithrin gallu trwy brynu oergelloedd a rhewgelloedd a rhoi cymhorthdal i glwb cinio wythnosol i sicrhau ei fod yn aros yn fforddiadwy i drigolion lleol.

Yn ogystal, mae wedi darparu cyllid i gefnogi cynllun bocsys llysiau lleol sy'n ceisio dod â chynnyrch organig wedi'i dyfu'n lleol i drigolion, ac hefyd wedi bod o fudd i'r gymuned leol trwy gynnig cyfleoedd i wirfoddoli. Mae'r cyllid hefyd wedi'i ddefnyddio i addysgu sgiliau bwyd gwydn fel tyfu, sgiliau coginio a sut i fwydo teulu ar gyllideb.



# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol


Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar flaen y gad o ran datblygu'r Strategaeth Bwyd Cymunedol. Yn ei strategaeth **'Cymru Can'** (2023-2030), mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn pwysleisio yn ei strategaeth fod 'bwyd o'r fferm i'r fforc yn hollbwysig i gyflawni nodau lles Cymru ar gyfer iechyd ein pobl a'n planed'.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gall annog cyflenwi bwyd lleol yng Nghymru arwain at gyfleoedd i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Gall leddfu tlodi bwyd gyda chynlluniau tyfu cymunedol lleol, mwy o gydweithfeydd bwyd a cheginau cymunedol.

Mae Bwyd o Bwys: Cymru, yn amlinellu'r polisïau sy'n gysylltiedig â bwyd a'r ffyrdd o weithio sy'n ffurfio agenda strategol gyffredinol ar gyfer bwyd. Mae'n disgrifio sut mae'r Strategaeth Bwyd Cymunedol yn cyfrannu at yr amcanion llesiant.



## Sut mae ein Strategaeth Bwyd Cymunedol yn cyfrannu at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru




**Allwedd**

● Cyfle am gyfraniad ehangach    + Cyfraniad uniongyrchol





# Fframwaith Strategol

## Gweledigaeth Strategol


**Ein gweledigaeth ar gyfer y Strategaeth Bwyd Cymunedol yw:** Gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo a chryfhau'r system fwyd leol a chymunedol yng Nghymru; cynyddu argaeledd bwyd lleol, iachach a chynaliadwy a'r defnydd ohono; ac ysbrydoli gwelliannau o ran llesiant yn ein cymunedau.

## Uchelgais

Mae cyflawni'r weledigaeth hon yn dibynnu ar gyfres o gynigion polisi o dan chwe amcan. Mae hyn yn cael ei ategu gan uchelgais i greu system fwyd gymunedol gryfach, mwy cydnerth.

Mae creu system fwyd leol gryfach yng Nghymru yn golygu creu cysylltiadau sy'n cysylltu cynnyrch bwyd lleol â'r galw am fwyd yn lleol – bwyd a gynhyrchir gan y gymuned ar gyfer y gymuned. Mae cyflawni hyn yn golygu codi lefelau gallu, seilwaith a diogelwch i dyfwyr, ffermwyr a busnesau bwyd lleol – er enghraifft drwy gefnogi cyfanwerthwyr o Gymru i gyflenwi caffael yn y sector cyhoeddus.

Mae datblygu cydnerthedd bwyd lleol yn dibynnu ar bartneriaethau cydweithredol a chydlynol sy'n galluogi dull mwy gwybodus a chydweithredol ar gyfer cynllunio a chyflenwi o fewn cymunedau, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Bydd hyn yn annog newidiadau cadarnhaol sydd hefyd yn helpu i atal heriau yn y dyfodol, er enghraifft wrth fynd i'r afael â thlodi bwyd, cyfiawnder cymdeithasol, addysg, iechyd, a'r amgylchedd.






## Well-Fed: bocsys prydau maethlon a chymorth bwyd i ogledd Cymru

Mae Well-Fed yn fusnes cymdeithasol yn Shotton, gyda'i wasanaethau'n cwmpasu llawer o ogledd Cymru. Fe'i sefydlwyd yn wreiddiol fel partneriaeth rhwng Can Cook, Cymdeithas Tai ClwydAlyn a Chyngor Sir y Fflint yn 2019.

Nod Well-Fed yw sicrhau bod gan bawb fynediad at fwyd ffres o ansawdd da, waeth beth fo'u lefelau incwm. Mae'r busnes yn cyflogi 24 o bobl sy'n helpu i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys Arlwyo Masnachol: ar gyfer gwasanaethau gofal a gofal ychwanegol; MealBoxes: gwasanaethau a ddarperir i gartrefi mewn partneriaeth â chymdeithasau tai; MealCentres: wedi'u creu mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol lleol; MobileShops: yn canolbwyntio ar ardaloedd mwy anghysbell / gwledig; MealLockers: sy'n galluogi pobl i archebu a chasglu prydau i'w coginio gartref; MealVending: peiriannau gwerthu heb blastig ar gyfer gweithleoedd; a Hyfforddiant Bwyd: a ddarperir o fewn cymunedau lleol.

Well-Fed yw'r unig ddarparwr prydau sydd heb eu prosesu'n helaeth yn Ewrop, ac mae ffocws cryf ar sicrhau bod cymaint o'u cynhyrchion yn cael eu tyfu mor lleol â phosibl drwy weithio gyda chynhyrchwyr a chyflenwyr lleol. Mae ganddynt dros 140 o fathau o brydau ac maent yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau, o brydau parod i opsiynau coginio gartref. Maent yn teilwra eu gwasanaeth yn dibynnu ar lefel y cymorth sydd ei angen ar bobl, gyda'r rhai sy'n mwynhau coginio'n gallu cael gafael ar eu bocsys prydau 'Cook Easy' neu eu bagiau popty araf. Yn y cyfamser, gall eraill ddewis prydau wedi'u coginio ymlaen llaw, a gadael i'w cogyddion cymwys wneud y gwaith caled drostynt.

Rhan fawr o'u gwaith yw helpu i fwydo aelwydydd sy'n wynebu anawsterau. Maent wedi ymrwymo i fwydo unrhyw un sy'n cael trafferth i gael gafael ar fwyd maethlon, gyda ffocws penodol ar fwydo plant llwglyd.

Hyd yn hyn, maent wedi darparu dros 200,000 o brydau am ddim i deuluoedd sy'n cael trafferthion ariannol, ac mewn cyfnod o flwyddyn yn unig, wedi darparu 15,000 o focsys prydau ffres i deuluoedd, wedi dysgu dros 120 o bobl i goginio gan ddefnyddio poptai araf, a darparu 1,500 o focsys prydau ffres i deuluoedd a fyddai fel arall wedi bod angen cymorth banc bwyd.





# Amcanion

Mae gan y Strategaeth Bwyd Cymunedol chwe amcan. Mae hyn yn rhoi'r fframwaith y gall Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus, rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid cyflenwi ddod â syniadau ac adnoddau at ei gilydd ar gyfer gweithredu ar y cyd.

## 1 Sicrhau meddwl ac arweinyddiaeth strategol cydgysylltiedig

Parhau i gysylltu gwaith llunio polisi ar draws Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â natur amrywiol a chymhleth materion sy'n gysylltiedig â bwyd, a sefydlu grŵp cynghori gweinidogol newydd i gyflawni uchelgeisiau'r strategaeth hon. Galluogi a chefnogi cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ymgorffori bwyd fel blaenoriaeth mewn cynllunio a chyflenwi strategol.

## 2 Galluogi cydlynu a gweithredu yn y system fwyd leol

Annog mentrau bwyd lleol a chymunedol i greu rhwydwaith cydlynol ar gyfer rhannu gwybodaeth a chydweithredu. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â hyfywedd hirdymor, dod â chyfleoedd cadwyn gyflenwi leol newydd a gwella cydnerthedd systemau bwyd lleol.

## 3 Cryfhau gwytnwch bwyd yn ein cymunedau

Helpu i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â bwyd sy'n wynebu cymunedau yng Nghymru, ynghylch mynd i'r afael â thlodi bwyd, salwch sy'n gysylltiedig â deiet a lleihau gwastraff bwyd.

## 4 Hwyluso cymunedau bwyd cydlynol


Er budd cynhwysiant cymdeithasol, llesiant meddyliol a chorfforol trwy fentrau bwyd cymunedol.

## 5 Galluogi rhwydweithiau cyflenwi lleol amrywiol, cryfach

Sicrhau bod mwy o fwyd a brynir yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru. Byddwn yn meithrin diogeledd a gallu er mwyn i fusnesau bwyd a diod lleol yng Nghymru ennill a chadw cyfleoedd marchnad yng Nghymru ar draws y sector manwerthu, y sector gwasanaeth bwyd a lletygarwch, a chaffael yn y sector cyhoeddus.

## 6 Galluogi tyfu cymunedol a garddwriaeth

Cynyddu cynhyrchu bwyd ffres, maethlon a chynaliadwy o ffynonellau lleol yng Nghymru, gan wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer datblygu tyfu cymunedol a garddwriaeth ar raddfa fach yng Nghymru.



Amcan 1

# Sicrhau meddwl ac arweinyddiaeth strategol cydgysylltiedig

Mae'r system fwyd yn amrywiol ac yn gymhleth, ac felly mae arweinyddiaeth cydgysylltiedig ar lefel llunio polisi yn allweddol. Mae hyn yn golygu parhau â'n dull partneriaeth ar draws Llywodraeth Cymru, gyda rhanddeiliaid allweddol, a chyda chyrff cyhoeddus.

## Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma

Rydym eisoes wedi cymryd camau sylweddol i uno blaenoriaethau'r llywodraeth ar fwyd. Mae Fforwm Polisi Bwyd Traws-lywodraethol wedi'i sefydlu i ddarparu goruchwyliaeth a sicrhau cydlyniant a chydnawsedd ar gyfer materion polisi bwyd. Mae hyn yn cynnwys gwneud y gorau o gysylltiadau ar draws amaethyddiaeth, yr economi, masnach, cyfiawnder cymdeithasol, addysg, iechyd a'r amgylchedd. Yn bwysig, mae hyn yn creu'r modd ar gyfer adolygu ac adnewyddu amcanion y Strategaeth Bwyd Cymunedol.

Yn 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Tlodi Plant Cymru i ysgogi cydweithio, o fewn y llywodraeth ac ar draws Cymru, i ail-gydbwyso camau tuag at atal tlodi a lliniaru ei effeithiau gwaethaf. Mae cydweithio ar leihau costau bwyd a chynyddu mynediad at fwyd fforddiadwy, iach yn elfen allweddol o'r Strategaeth Tlodi Plant.

## Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud nesaf

### Creu grŵp cynghori gweinidogol pwrpasol

Byddwn yn rhoi trefniadau llywodraethu clir ar waith i sicrhau bod y Strategaeth Bwyd Cymunedol yn cael ei chyflawni'n effeithiol ac mewn ffordd gydgysylltiedig. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn gweithio gydag uwch randdeiliaid a phartneriaid cyflawni allweddol i ffurfio grŵp cynghori gweinidogol penodol. Bydd hyn yn sicrhau ffocws a dull cydweithredol ar gyfer arwain cyflawni yn erbyn amcanion y strategaeth hon ac ar gyfer mesur cynnydd a llwyddiant.

Bydd pwrpas y grŵp yn cynnwys:

- Sefydlu aelodaeth eang a chynrychiadol sy'n tynnu at ei gilydd y partneriaid allweddol a all gyfrannu tuag at sicrhau bod mwy o bobl yn mwynhau bwyd sy'n dod o ffynonellau lleol yng Nghymru.
- Arwain a monitro cyflawni ac effaith y Strategaeth Bwyd Cymunedol, a darparu cyngor i weinidogion Cymru ar yr hyn fydd yn gweithio orau yn ymarferol.
- Sicrhau bod dulliau yn gyson ac yn effeithiol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.
- Darparu cyngor sy'n helpu i lunio datblygiad parhaus a chanlyniadau'r Strategaeth Bwyd Cymunedol, i sicrhau bod y strategaeth yn parhau i fod wedi'i thargedu ac yn berthnasol.







### Gweithio mewn partneriaeth gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae cyfle clir i gysylltu fframwaith polisi bwyd Llywodraeth Cymru ag ymrwymiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, yn Cymru Can 2023-2030, ar gyfer bwyd fel maes ffocws. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd bwyd a deiet ar gyfer cyflawni'r nodau llesiant a chyflawni Cymru iachach.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r Comisiynydd i helpu cyrff cyhoeddus i ddeall sut i yrru'r agenda fwyd, integreiddio polisïau bwyd yn eu cynlluniau llesiant, ymgysylltu â Phartneriaethau Bwyd Lleol, a mabwysiadu dull systemau hirdymor o sicrhau cydnerthedd bwyd lleol.

Mae gan gyrff cyhoeddus y potensial i ymgorffori bwyd fel blaenoriaeth o fewn darparu gwasanaethau cyhoeddus trwy ystod o gyfleoedd ar draws addysg, caffael, twristiaeth, defnyddio asedau lleol i gefnogi tyfu cymunedol, ac ystadau i hyrwyddo bwyd cymunedol.

Mae canfyddiadau ymchwil ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd gan y Comisiynydd a Synnwyr Bwyd Cymru yn cynnwys:

- Yr angen am fwy o gysondeb ar draws Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a Pharciau Cenedlaethol ar gyfer integreiddio bwyd yn eu cynlluniau llesiant.
- Pan fo bwyd wedi'i ystyried, mae hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â materion penodol yn hytrach na defnyddio dull systemau ar draws darpariaeth gwasanaethau lleol.
- Y galw gan gyrff cyhoeddus am gymorth pellach ar sut i nodi a defnyddio ysgogiadau polisi i hyrwyddo polisïau bwyd ar lefelau lleol a rhanbarthol.

Yn galonogol, datgelodd canfyddiadau ddiddordeb cynyddol mewn dull sy'n seiliedig ar systemau wrth ymwneud â materion bwyd ymhlith cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Mae awdurdodau lleol yn arddangos tuedd gynyddol i wneud caffael bwyd cyhoeddus yn fwy cynaliadwy, ochr yn ochr ag ymdrechion i ddefnyddio mwy o asedau cyhoeddus, fel defnyddio tir ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â bwyd.

Mae'r ymchwil hefyd yn nodi datblygu Partneriaethau Bwyd Lleol fel cam cadarnhaol, gan hyrwyddo cydweithredu a chyfranogiad y cyhoedd.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Comisiynydd i sicrhau bod bwyd yn cael ei integreiddio yn fwy cyson ar draws cynlluniau llesiant cyrff cyhoeddus.

## Cyngor Sir Fynwy: dull cydweithredol o alinio systemau bwyd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Cyngor Sir Fynwy yn llunio Strategaeth Bwyd Lleol i osod gweledigaeth hirdymor ar gyfer system bwyd lleol decach, wyrddach ac iachach.

Mae'n canolbwyntio ar feysydd lle mae gan y Cyngor ddylanwad uniongyrchol megis caffael cyhoeddus, rheoli tir, partneriaethau cymunedol a grantiau - i lunio system bwyd lleol sy'n lleihau anghydraddoldeb bwyd a diet tra'n ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Mae mentrau allweddol yn cynnwys grantiau cymunedol ar gyfer garddwriaeth, sefydlu Clybiau Food On Our Doorstep (FOOD) fforddiadwy i leihau gwastraff bwyd a chreu prydau ysgol heb ddi-goedwigo sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal Partneriaeth Bwyd Cynaliadwy Sir Fynwy, i sicrhau cyfranogiad a chydweithrediad o ran ei ddull strategol o ymdrin â bwyd. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â grwpiau cymunedol, Coleg Gwent, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyfoeth Naturiol Cymru, NFU Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Yn y pen draw, trwy'r gwaith hwn mae'r Cyngor wedi ymgorffori cynhyrchu a bwyta bwyd cynaliadwy yn ei amcanion llesiant. Mae hyn er mwyn datblygu integreiddio polisi bwyd ac alinio ei strategaeth fwyd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.











Amcan 2

# Galluogi cydlynu a gweithredu yn y system fwyd leol

Ledled Cymru, mae tirwedd helaeth ac amrywiol o fentrau bwyd lleol, a ddarperir gan ystod eang o sefydliadau. Mae'r rhain yn dangos yr ymrwymiad o fewn cymunedau i ymateb i faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol brys ac, mewn rhannau o Gymru, marchnad leol lwyddiannus.

Mae'r mentrau bwyd hyn yn wynebu ystod o heriau gan gynnwys dod o hyd i ddigon o weithwyr a gwirfoddolwyr medrus addas, gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol rannau o'r gadwyn gyflenwi, a chyrraedd y rhai sy'n cael budd ohonynt. Mae'r cymorth ariannol sydd ar gael fel arfer yn fyrdymor ac wedi'i gyfyngu i nodau penodol.

## Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma

Yn 2022, trwy gyllid Llywodraeth Cymru, sefydlwyd Partneriaethau Bwyd Lleol ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Trwy ddarparu arweinyddiaeth a chydlynu cyffredinol, mae Partneriaethau Bwyd Lleol yn tynnu mentrau bwyd lleol i mewn i rwydwaith cefnogol. Mae'r rhwydweithiau hyn yn gwneud cysylltiadau cynhyrchiol rhwng rhanddeiliaid bwyd lleol, gan gynnwys cyrff cyhoeddus, ffermwyr, y byd academaidd a sefydliadau cymunedol. Maent hefyd yn hwyluso cydweithredu ar flaenoriaethau a gweithredu ar gyfer yr ardal leol.

Mae Partneriaethau Bwyd Lleol eisoes yn gwneud gwahaniaeth mewn perthynas â thlodi bwyd, iechyd, twf gwyrdd, amaethyddiaeth ac addysg. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan uniongyrchol mewn amrywiaeth o brosiectau o dan y Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol a Sgiliau Maeth am Oes, cysylltu â grwpiau llywio ar gyfer Bwyd a Hwyl, ymgysylltu â chynlluniau iechyd cyhoeddus lleol a chefnogaeth i dyfwyr sy'n dechrau garddwriaeth.






## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

Byddwn yn cyflwyno rhwydweithiau bwyd lleol cynrychiadol, amrywiol a gweithgar a byddwn yn cynyddu nifer y prosiectau bwyd cymunedol cydweithredol.

Rydym wedi ymrwymo dros £2 miliwn o gyllid yn 2025-26 i ddatblygu'r rhwydwaith o Bartneriaethau Bwyd Lleol ledled Cymru ymhellach a darparu prosiectau bwyd cymunedol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ariannu'r partneriaethau hyn tan ddiwedd mis Mawrth 2028.

Bydd hyn yn rhoi hyder i Bartneriaethau Bwyd Lleol ddatblygu cynlluniau hirdymor, datblygu cysylltiadau strategol â chyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus, a hwyluso cyfleoedd cyflenwi lleol newydd. Bydd cyllid prosiect ar gyfer 2025-26 hefyd yn cefnogi Partneriaethau Bwyd Lleol i ddatblygu gallu, datblygu prosiectau bwyd wedi'u targedu a chydweithio i fynd i'r afael â heriau seilwaith.

Bydd Synnwyr Bwyd Cymru, cangen gyflawni Lleoedd Bwyd Cynaliadwy i Gymru, yn goruchwylio'r broses hon drwy rôl gefnogol ganolog i'r Cydlynwyr Bwyd Lleol, gan gynnwys cymorth un i un a rhwng cymheiriaid, gan annog datblygu prosiectau bwyd lleol a rhanbarthol a monitro arferion gorau a gwerthuso effaith.



## Bwyd Caerdydd: ymagwedd strategol at lywodraethu a gweithredu bwyd da

Mae trawsnewid diwylliant a system bwyd lle yn gofyn am ddull strategol cydgysylltiedig a chydweithio hirdymor rhwng unigolion a sefydliadau ar draws pob sector a lefel — o grwpiau cymunedol a sefydliadau trydydd sector i fusnesau a chyrff cyhoeddus.

Ers ei sefydlu dros ddegawd yn ôl, mae Bwyd Caerdydd wedi bod yn cydweithio'n gyson ag ystod amrywiol o randdeiliaid, ac mae ei Wobr Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn 2024 yn dyst i lwyddiant y bartneriaeth wrth ddod â sectorau ynghyd i ysgogi newid ystyrlon a strategol yn system fwyd y brifddinas.

Mae Bwyd Caerdydd yn gweithredu trwy gydlynu, strategaeth, a gweithredu, sy'n cael ei oruchwylio gan y Bwrdd Strategaeth. Mae'r Bwrdd hwn yn cynnwys aelodau craidd o sefydliadau fel Cyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn ogystal â chynrychiolwyr o sefydliadau trydydd sector a gweithwyr proffesiynol a dinasyddion sy'n rhan o'r mudiad bwyd cynaliadwy lleol.

Mae'r bartneriaeth ehangach yn cynnwys dros 250 o aelodau sy'n cynnwys busnesau, sefydliadau cymunedol ac unigolion. Gyda'i gilydd, mae eu hymdrechion ar y cyd yn cyd-fynd â'r Strategaeth Bwyd Da, a ddatblygwyd ar y cyd i arwain nodau cynaliadwyedd a mynediad bwyd hirdymor y ddinas.

Mae Bwyd Caerdydd hefyd yn cydlynu is-grwpiau fel Cydweithfa Fwyd Gymunedol Caerdydd, sy'n cynnwys bron i 30 o brosiectau bwyd cymunedol lleol. Mae Cydweithfa Fwyd Gymunedol Caerdydd yn cyflwyno llais cyfunol dros newid i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd; ac yn gweithio ar y cyd i gyflawni prosiectau, er enghraifft sicrhau ffynonellau cadarn o gyflenwadau bwyd.

Cryfder arall yw integreiddio arbenigedd maeth a dieteg yn ei waith. Er enghraifft, mae Pennaeth Gwasanaethau Maeth a Deieteg Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi bod yn rhan o'r prosiect ers ei sefydlu ac mae'n pwysleisio'r rôl hollbwysig y mae dietegwyr yn ei chwarae wrth droi egwyddorion bwyd da'n realiti. Trwy fentrau fel Sgiliau Maeth am Oes a Bwyd a Hwyl, gall trigolion gael mynediad at gyngor sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac awgrymiadau ymarferol ar wneud dewisiadau bwyd iachach.









### Mae'r tabl hwn gan Bwyd Caerdydd yn rhoi trosolwg da o strwythur nodweddiadol ar gyfer Partneriaeth Bwyd Lleol

**Cydlynydd Bwyd Caerdydd**

**Bwrdd Strategaeth Bwyd Caerdydd**

**Aelodau craidd:**
Cyngor Caerdydd
*Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Iechyd y Cyhoedd a Deieteg Leol)

**Aelodau ychwanegol:**
Elusennau Busnes Bwyd
Ymgyrchwyr Unigol
Prifysgolion / Ymchwilwyr

**Bwrdd Strategaeth Bwyd Caerdydd**

**250+ o aelodau gweithredol o bob sector**
e.e. elusennau, tai, diwylliant, twristiaeth, lletygarwch, actifiaeth ar lawr gwlad

**Grwpiau a hwylusir gan Bwyd Caerdydd:**
Cydweithfa Bwyd Cymunedol Caerdydd
Gweithgor Tlodi Bwyd
Grŵp Caffael Bwyd Caerdydd a'r Fro

**Grwpiau a Hwylusir gan Aelodau:**
Grŵp Llywio Strategaeth Fwyd Cyngor Caerdydd
Rhwydwaith Caerdydd Bwytadwy
Grŵp Gweithredu a Mudiad Bwyd Dainas Cyflog

**Mudiad Bwyd Da y Ddinas Gyfan**

Pedair gŵyl hydref flynyddol, gyda **46** o sefydliadau sy'n aelodau yn cynnal **100+** o ddigwyddiadau a chroesawu **8,000** o fynychwyr

**1000oedd** o bobl yn cael mynediad at fwyd iach, fforddiadwy trwy brosiectau manwerthu amgen

Amcan 3

# Cryfhau gwytnwch bwyd cymunedol

Mae cyflenwad bwyd yn gysylltiedig â heriau systemig i bobl ar gyfer iechyd a lles hirdymor. Mae gallu cael cydbwysedd o fwyd maethlon a mwy cynaliadwy yn angenrheidrwydd sylfaenol ar gyfer gwell iechyd a diogelwch bwyd ac i fynd i'r afael â thlodi bwyd – sy'n bryder cynyddol ledled Cymru.

Mae lefelau gordewdra yng Nghymru wedi bod yn cynyddu'n raddol dros y degawdau diwethaf. Mae hyn yn bryderus oherwydd mae gordewdra yn cael ei nodi fel un o'r problemau iechyd cyhoeddus mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu Cymru ar hyn o bryd. Mae gordewdra yn ffactor risg allweddol mewn ystod o glefydau cronig, gan gynnwys diabetes math 2, pwysedd gwaed uchel, clefyd cardiofasgwlaidd, a rhai canserau. Mae oddeutu chwarter y plant yng Nghymru dros eu pwysau neu yn ordew erbyn iddynt ddechrau'r ysgol gynradd.

Daw canlyniadau dietau gwael a diffyg maeth yn glir pan gânt eu trosi'n gostau i'r GIG. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi amcangyfrif yn ddiweddar mai £0.5 biliwn y flwyddyn yw costau uniongyrchol i GIG Cymru o drin pobl sy'n byw gyda gordewdra neu ordewdra a chlefydau cysylltiedig.

Mae cyfraddau gordewdra yn llawer uwch yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae adroddiad gan y Sefydliad Bwyd yn dangos bod diet cytbwys iach yn parhau i fod yn anfforddiadwy i lawer o aelwydydd. Mae ymchwil yn dangos y gall pwysau prisiau arwain at ymddygiadau niweidiol gan gynnwys hepgor prydau bwyd, lleihau maint dogn, a lleihau dewisiadau bwyd.

Arweiniodd yr argyfwng costau byw ar ôl Covid at gynnydd ym mhrisiau bwyd yn y DU, gan gyrraedd uchafbwynt o 19.2% ym mis Mawrth 2023 – y gyfradd flynyddol uchaf ers 1977. Mae adroddiad gan Ymddiriedolaeth Trussell yn tynnu sylw at y ffaith bod 20% o'r holl oedolion yng Nghymru wedi profi ansicrwydd bwyd yn ystod y 12 mis hyd at ganol 2022. Er bod chwyddiant prisiau bwyd wedi normaleiddio'n sylweddol ers hynny, mae'r cynnydd blaenorol hwn mewn prisiau bellach wedi'u hymgorffori. Mae tlodi bwyd yn fater parhaus a hirdymor.







## Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma

Ers 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo dros £27m o gymorth i bobl yr effeithir arnynt gan dlodi bwyd, gan gynnwys darparu cymorth bwyd brys trwy'r rhwydwaith o fanciau bwyd Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaeth Trussell. Mae cyllid wedi cefnogi sefydliadau bwyd cymunedol i gael mynediad at gyflenwadau digonol gan gynnwys bwyd, offer coginio a nwyddau hanfodol eraill i gynnal dietau iach ac urddas personol. Yr hyn sy'n bwysig yw, roedd y cyllid hwn hefyd yn cefnogi mentrau cydweithredol, a oedd yn meithrin gwybodaeth a sgiliau bwyd, ac yn cefnogi manteisio ar fuddion fel y rhaglen 'Cychwyn Iach'.

Mae Cychwyn Iach yn fudd sy'n anelu at sicrhau bod menywod beichiog a theuluoedd â phlant ifanc yn gallu fforddio bwydydd iachach fel ffrwythau, llysiau a llaeth. Mae hyn yn cynnwys llawer o fusnesau lleol llai yn ogystal â phantrioedd bwyd. Rydym wedi cyflwyno cwrs e-ddysgu gorfodol ar gyfer holl staff y GIG sy'n gweithio gyda menywod beichiog a theuluoedd ifanc i sicrhau bod Cychwyn Iach yn cael ei hyrwyddo'n eang ac rydym yn edrych sut y gallwn gyrraedd hyd yn oed mwy o deuluoedd yng Nghymru.

Ers 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mwy na £3.9m i adeiladu capasiti FareShare Cymru ymhellach. Mae hyn er mwyn i FareShare Cymru allu storio a dosbarthu mwy o fwyd da dros ben ac felly cadw i fyny â gofynion cyflenwadau hirdymor sefydliadau bwyd cymunedol. Mae FareShare Cymru wedi dosbarthu mwy na 15 miliwn o brydau bwyd i'r rhai mewn angen ledled Cymru drwy 411 o sefydliadau cymunedol ac elusennau.

Roedd cyllid Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi ehangu'r 'Big Bocs Bwyd' – prosiect sy'n gweithredu mewn ysgolion gyda'r nod o sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn llwglyd a bod pob plentyn yn gallu dysgu sut i wneud dewisiadau bwyd iach a chynaliadwy. Ar hyn o bryd mae'r prosiect yn cwmpasu 70 o gymunedau ysgol ledled Cymru.

Mae ein Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn cynnwys dull 'ystyried y gymuned' at greu ac ariannu rhanglenni perthnasol gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â thlodi bwyd fydd yn creu llwybrau allan o dlodi ac yn cefnogi lles plant a theuluoedd.

Mae cynlluniau peilot Plant a Theuluoedd PIPYN yn Ynys Môn, Caerdydd a Merthyr yn rhaglenni lleol o fewn tair ardal gyferbyniol sydd â lefelau uchel o ordewdra yn ystod plentyndod. Mae'r rhaglenni peilot yn treialu dulliau newydd o gysylltu gyda a chefnogi teuluoedd â phlant rhwng tair a saith oed i fabwysiadu ymddygiadau iach. Mae cannoedd o deuluoedd wedi cwblhau cwrs sy'n eu cefnogi i ddarparu bwyd iachach i deuluoedd ac ymgorffori agweddau iach gydol oes tuag at fwyd. Mae'r cwrs yn rhan o ddull system gyfan ehangach sy'n anelu at feithrin cydweithrediad rhwng sefydliadau lleol i gynyddu cyfleoedd i deuluoedd gael mynediad at ddeiet iach cytbwys.





# Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

## Cyfiawnder bwyd i gymunedau Cymru

Dros y tymor hwy, mae'n bwysig symud i ffwrdd o ddibyniaeth ar fanciau bwyd, a chefnogi mentrau bwyd cymunedol i gaffael bwyd o ystod fwy amrywiol o ffynonellau, y tu hwnt i ailddosbarthu bwyd dros ben.

Bydd amcanion cyllido grant parhaus ar gyfer Partneriaethau Bwyd Lleol yn cynnwys canolbwyntio ar annog bwyd i fod ar gael yn lleol, mynediad at a bwyta bwyd iachach a maethlon i bawb, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, yn ogystal â dosbarthu bwyd dros ben. Enghraifft o'r gwaith hwn yw Bwyd Caerdydd sydd eisoes wedi ymgysylltu â chymunedau yn ne Caerdydd drwy bantrioedd bwyd amlddiwylliannol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau bwyd i leihau gwastraff bwyd anfwytadwy 60% erbyn 2030. Gall cymunedau chwarae rhan hanfodol wrth atal bwyd bwytadwy rhag cael ei wastraffu. Mae hyn yn cynnwys cefnogi rheoli bwyd dros ben yn effeithiol yn y gadwyn gyflenwi, atal bwyd bwytadwy dros ben rhag cael ei daflu gartref, ac ailddosbarthu bwyd bwytadwy dros ben.

Byddwn yn annog atebion ar lefel gymunedol, a allai gynnwys cymunedau sy'n datblygu perthynas â sefydliad ailddosbarthu canolog mwy; cysylltiadau uniongyrchol â chyflenwyr lleol; cofrestru i apiau; neu sefydlu oergelloedd cymunedol.

Mae defnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau o ailddosbarthu bwyd yn cynyddu'r tebygolrwydd o gael mwy o fwyd dros ben a gwahanol. Mae hyn yn ei dro yn rhoi mwy o wydnwch i fygythiadau i ddiogelwch bwyd ac yn atal bwyd y gellid ei fwyta rhag cael ei daflu i ffwrdd.

## Hyrwyddo cydraddoldebau iechyd

Mae'r strategaeth cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach, yn cefnogi pobl i fwyta diet iach cytbwys trwy gynyddu dealltwriaeth a gwneud opsiynau iachach yn yn fwy hygyrch ac ar gael.

Mae'r strategaeth a'i chynllun cyflawni yn nodi'r camau allweddol i sicrhau bod gan ein cymunedau fynediad o fewn y gymdogaeth at fwydydd iachach drwy ystod eang o siopau, gan gynnwys lleoliadau y tu allan i'r cartref, siopau tecawê bwyd poeth a lleoliadau'r sector cyhoeddus. Cefnogir byrddau iechyd lleol i ymgorffori dull sy'n seiliedig ar systemau yn eu strategaethau a'u strwythurau llywodraethu i gryfhau ymatebion cydweithredol i fwyta'n iach. Mae hyn yn cynnwys dulliau arloesol o gael bwyd iachach mewn lleoliadau fel ysgolion a chanolfannau hamdden.

Trwy gyfyngu ar hyrwyddo cynhyrchion braster, siwgr a halen uchel, bydd Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025 yn symud y balans o hyrwyddo cynnyrch oddi wrth gynhyrchion llai iach yn ein siopau bwyd.  Rydym yn edrych ar opsiynau i leihau hysbysebu bwydydd llai iach ar wefannau sy'n eiddo i'r cyhoedd, gan ddilyn esiampl Trafnidiaeth Cymru.

Bydd y Strategaeth Bwyd Cymunedol yn cefnogi Pwysau Iach: Cymru Iach, yn enwedig o ran gwella'r ddarpariaeth a'r mynediad o fewn cymunedau at fwyd iachach lleol. Byddwn yn annog gwell cydbwysedd rhwng opsiynau iachach a llai iach trwy ystod o safleoedd gwerthu a thrwy y ddarpariaeth bwyd yn y sector cyhoeddus. Trwy dyfu cymunedol a garddwriaeth, mae cyfle unigryw i hyrwyddo'r cyflenwad lleol o gynnyrch bwyd ffres.



## Big Bocs Bwyd: hybu cyrhaeddiad addysgol trwy gyfrwng bwyd da

Wedi'i hysbrydoli gan raglen deledu, penderfynodd pennaeth dwy ysgol ym Mro Morgannwg sefydlu canolfan fwyd brofiadol, addysgiadol mewn cynhwysydd cludo i helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd a gwastraff bwyd, ac i roi cyfle i blant a rhieni ddysgu popeth am fwyd a dewisiadau bwyd iach.

Yn dilyn llawer o waith codi arian yn Nhregatwg, y Barri, a gweithio gyda Chyngor Bro Morgannwg i ddod o hyd i safle addas ar gyfer y prosiect, daeth y Big Bocs Bwyd yn ganolbwynt i'r gymuned yn gyflym. Yn dilyn llwyddiant y Big Bocs Bwyd gwreiddiol a chyllid dilynol, mae canolfannau pellach wedi'u lleoli ledled y wlad, gan gynnwys Llandeilo, Aberhonddu, Llanelli, Port Talbot a llawer mwy.

Fel rheol, mae canolfannau Big Bocs Bwyd yn cynnwys siop 'talu faint fynnwch' ddeniadol mewn cynhwysydd cludo wedi'i addasu, gyda storfa ddiogel ychwanegol mewn ail gynhwysydd llai, sy'n cynnwys gwelyau plannu uchel a man cyfarfod i grwpiau bach. Mae gan rai ysgolion hefyd fannau tyfu ychwanegol, coetiroedd, twneli polythen, cychod gwenyn ac ati sy'n gwella arlwy eu siopau.

Yn y gorffennol, nid oedd yr ysgolion oedd yn cymryd rhan wedi cydweithio ac felly mae'r prosiect wedi creu diddordeb cyffredin lle gallant drafod eu profiadau, a rhannu arfer da. Nid yn unig y mae'n dod â'r gymuned ynghyd, ond mae hefyd yn dangos sut y gall y prosiect effeithio'n gadarnhaol ar ddysgu yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt, gyda nodau craidd y prosiect wedi'u cysylltu'n benodol â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru.

Er enghraifft, mae'r plant yn cael eu haddysgu sut i feithrin sgiliau mentrus trwy ddysgu ymarferol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm, nodau Ysgolion sy'n Parchu Hawliau, Nodau Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant, Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ac Eco-Ysgolion.

Yn y pen draw, mae plant a theuluoedd yn cael bwyd iach am brisiau fforddiadwy, wedi'u cefnogi gan brofiadau dysgu dilys sy'n eu helpu i ddod yn llythrennog mewn bwyd trwy dyfu, coginio a dysgu am eu bwyd. Mae'r prosiect hefyd yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn llwglyd a bod pob plentyn yn gallu dysgu sut i ddewis bwyd da a fydd yn eu galluogi i ffynnu.





## Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent: bwyd iach i bawb

Mae Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent yn ceisio sicrhau bod yr holl drigolion yn cael mynediad cyfartal at fwyd iach, fforddiadwy ac mae'n cynnwys cydweithio â'r awdurdod lleol, y bwrdd iechyd, a sefydliadau'r trydydd sector.

Mae Blaenau Gwent yn wynebu cyfraddau gordewdra brawychus, gyda 70% o oedolion a 29% o ferched sy'n dechrau'r ysgol naill ai dros bwysau neu'n ordew. Mewn ymateb, mae'r bartneriaeth yn gweithio ar draws y system fwyd gyfan, gyda ffocws penodol ar leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella mynediad at fwyd iach.

Nod mentrau allweddol yw grymuso trigolion i wneud gwell dewisiadau maethol, gan greu llwybrau at ffyrdd iachach o fyw i bobl ar draws y fwrdeistref, gyda nifer o brosiectau lleol yn cael effaith sylweddol wrth bontio bylchau mewn mynediad at fwyd, tra hefyd yn meithrin ymgysylltu cymunedol.

Mae'r rhain yn cynnwys Sefydliad y Glowyr Llanhiledd, sy'n cynnig ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gysylltiedig â bwyd i bobl o bob oed, gan gynnwys dosbarthiadau coginio i bobl ifanc, gwersi coginio o'r dechrau a phantri bwyd brys. Yn y cyfamser, mae Ymddiriedolaeth Coetiroedd Bryn Sirhywi wedi esblygu o reoli coetiroedd i ddarparu rhandiroedd cymunedol a sesiynau coginio i blant, gyda'r bartneriaeth fwyd yn darparu cyllid i greu gwelyau plannu uchel.

Ymysg prosiectau eraill mae cydweithio â thîm Dechrau'n Deg i godi ymwybyddiaeth o fudd Cychwyn Iach, sydd â'r nifer sy'n manteisio arno wedi cynyddu'n sylweddol. Mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, mae'r prosiect wedi darparu hyfforddiant Sgiliau Maeth am Oes i ymarferwyr Dechrau'n Deg, gan sicrhau bod teuluoedd yn cael y wybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth sydd ei hangen i wneud dewisiadau iachach.

Mae Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent yn arddangos pŵer cydweithio rhwng unigolion, cymunedau a sefydliadau ymroddedig. Drwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd, ehangu mynediad at fwyd maethlon, a rhoi'r wybodaeth a'r offer i drigolion wneud dewisiadau bwyd gwybodus, mae'r bartneriaeth yn meithrin system fwyd iachach a thecach ar gyfer Blaenau Gwent.





## Amcan 4

# Hwyluso cymunedau bwyd cydlynol

Gall mwynhau bwyd a gynhyrchir yn lleol ddod â phobl at ei gilydd a helpu i adeiladu cydlyniant cymunedol. Gall cefnogi agweddau, ymddygiadau a chysylltiadau cadarnhaol â chynnyrch bwyd lleol hefyd helpu i ddod â buddion hirdymor i'n diet, iechyd meddwl a chynhwysiant cymdeithasol.

## Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma

Mae cyflwyno'r Prydau Ysgol Cynradd Cynradd Cyffredinol (UPFSM) yn llwyddiannus ledled Cymru yn gam pwysig i sicrhau bod mwy o blant ysgol yn gallu bwyta pryd o fwyd maethlon. Mae UPFSM hefyd wedi bod yn ymyrraeth hanfodol i blant a'u teuluoedd wrth iddynt geisio ymdopi â phwysau costau byw. Mae hefyd yn codi proffil bwyta'n iach yn sylweddol a rhagwelir y bydd yn sail i welliannau mewn ymddygiad a chyrhaeddiad. Gall UPFSM gyfrannu at ymagwedd ysgol gyfan at fwyd; addysgu plant am ble mae eu bwyd yn dod, sut mae'n cael ei gynhyrchu a'r effaith ar yr amgylchedd.

### Ymgorffori newid o fewn cymunedau

Ledled Cymru mae ystod eang o fodelau aelodaeth â chymhorthdal, gan gynnwys hybiau bwyd, clybiau bwyd a phantrïoedd cymunedol sy'n ganolbwynt o fewn cymunedau ar gyfer cyflenwi bwyd lleol.

Bwyd a Hwyl – rhaglen addysg yn yr ysgol sy'n darparu addysg bwyd a maeth, gweithgarwch corfforol a phrydau iach i blant yn ystod gwyliau haf yr ysgol. Yn 2024, cymerodd 205 o ysgolion ran ledled Cymru i gyflwyno'r rhaglen a darparwyd 13,040 o leoedd i blant bob dydd.

Mae'r rhaglen Sgiliau Maeth am Oes yn cefnogi asiantaethau partner i wella'r ddarpariaeth bwyd a diod mewn lleoliadau cymunedol fel gofal plant, ysgolion a gofal oedolion hŷn. Mae'r rhaglen yn helpu cymunedau i oresgyn rhwystrau i gael mynediad at ddeiet amrywiol a chytbwys, trwy adeiladu capasiti a sgiliau yn y gweithlu cymunedol, darparu hyfforddiant maeth a chyd-ddatblygu mentrau bwyd cymunedol.







### Tarddiad bwyd ac ymdeimlad o le

Mae marchnadoedd ffermwyr a gwyliau bwyd yn gyfleoedd pwysig ar gyfer datblygu marchnadoedd i gynhyrchwyr lleol a mentrau iechyd ac addysg i ddefnyddwyr, ac maen nhw'n dod â gwerth ychwanegol i economïau rhanbarthol. Maen nhw'n dod â phobl at ei gilydd ac yn denu ymwelwyr.

Mae busnesau bwyd bach a micro yng Nghymru yn aml yn ffafrio datblygiad cadwyn gyflenwi leol gan gynnwys cyfleoedd busnesau manwerthu a lletygarwch lleol uniongyrchol, fel siopau fferm, bwytai, marchnadoedd a gwyliau lleol. Mae llawer o fusnesau bwyd lleol yn cael eu cynnal trwy barhau i gyflenwi'n lleol, ac i eraill mae gwerthu eu cynnyrch mewn marchnadoedd ffermwyr a gwyliau bwyd yn arwain yn y pen draw at gyflenwi cwsmeriaid mawr yn y DU.

Yn fwy eang, mae cyfleoedd i ddefnyddio twristiaeth bwyd i hyrwyddo profiadau bwyd unigryw o ansawdd uchel sy'n gysylltiedig â lleoedd a chymunedau yng Nghymru. Mae bwyd a diod yn rhan annatod o gynnig twristiaeth Cymru drwy gyfuno bwyd a chynhwysion tymhorol lleol o safon gyda lleoedd diddorol i aros a rhai o gogyddion gorau'r byd.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

Byddwn yn codi apêl bwyd a gynhyrchir yn lleol trwy gefnogi ymyriadau ym maes addysg, hyfforddiant a chyfnewid gwybodaeth a thrwy farchnata a hyrwyddo cynnyrch lleol a thymhorol.

Byddwn yn sicrhau bod bwyd lleol yn rhan allweddol o'r ddarpariaeth prydau ysgol drwy weithio mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar draws caffael ac addysg. Yn ogystal, byddwn yn gwella sgiliau coginio ymhlith plant ac oedolion trwy hyrwyddo gweithgareddau sy'n cynnwys tyfu, coginio ac addysg yn ymwneud â maeth.

Byddwn yn adolygu sut y gall rhaglen gyfathrebu a hyrwyddo Bwyd a Diod Cymru helpu i godi lefelau ymwybyddiaeth a'r nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn mentrau bwyd cymunedol.

Byddwn hefyd yn edrych ar gyfleoedd i gefnogi'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol sydd yn yr arfaeth. Mae hyn yn ymwneud yn arbennig â grymuso unigolion, sefydliadau a chymunedau i gymryd camau i amddiffyn a hyrwyddo iechyd meddwl a llesiant meddyliol da. Er enghraifft, gall bwyd cymunedol a thyfu cymunedol ddod â buddion i iechyd meddwl gan fod pobl yn treulio amser ym myd natur ac mewn mannau gwyrdd.

Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth ariannol drwy'r Cynllun Grantiau Bach - Gwyliau a Digwyddiadau Bwyd. Mae'r buddsoddiad hwn yn dwyn ynghyd amaethyddiaeth leol, prosesu bwyd, y sector gwasanaeth bwyd a thwristiaeth i ddarparu profiadau bwyd diwylliannol unigryw o ansawdd uchel i gymunedau ac ymwelwyr.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn hybiau bwyd, clybiau bwyd a phantrioedd cymunedol i ddarparu'r achubiaeth mawr ei angen i gymunedau ac unigolion sy'n profi tlodi bwyd yn ogystal â darparu cyngor a chefnogaeth i fynd i'r afael â phroblemau tlodi.

Gyda'n gilydd, byddwn yn darparu llwybrau UKGI newydd i'r farchnad er mwyn adeiladu ar ymdeimlad o le a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd y mae cynhyrchion a marchnadoedd gwarchodedig yn eu cynnig i gymunedau lleol.

Gan weithio gyda Croeso Cymru, byddwn yn sicrhau bod y sectorau Bwyd a Thwristiaeth yn parhau i weithio'n agos gyda'i gilydd. Mae hyn yn cynnwys darparu profiadau bwyd diwylliannol o ansawdd uchel mewn partneriaeth â chymunedau ac atyniadau twristiaeth.








## Chwedlau Bwyd: rysáit ar gyfer llwyddiant mewn addysg bwyd ysgol

Mae Chwedlau Bwyd | Food Stories yn brosiect ysgolion sy'n cael ei redeg gan Gyngor Sir Fynwy gyda'r nod o wneud bwyd yn hwyl, trwy gyfrwng agwedd greadigol a chwareus at addysg bwyd.

Gyda sesiynau coginio ymarferol wedi'u hysbrydoli gan brydau ysgol, archwilio synhwyraidd ac adrodd straeon, mae'r prosiect wedi bod yn newid sut mae plant yn meddwl am eu prydau ysgol.

Mae gweithgareddau hwyliog, gan gynnwys profion blas dall, yn gadael i blant ddarganfod cynhwysion newydd, fel llysiau ffres a siocledi tywyll, mewn amgylchedd cyfeillgar a chefnogol, gan arwain at ymatebion cyffrous a diddordeb cynyddol mewn opsiynau iachach.

Mae cynnwys teuluoedd wedi bod yn hanfodol i'r llwyddiant, gyda theuluoedd yn cael eu gwahodd i flasu'r prydau a baratowyd gan y plant, a lwyddodd i ysgogi sgyrsiau am wneud dewisiadau bwyd iach gartref. Yn ogystal, derbyniodd teuluoedd becynnau bwyd i ail-greu'r ryseitiau gyda'i gilydd, gan droi coginio'n brofiad llawn hwyl.

Ymunodd y Cyngor â'r storïwyr Tamar Eluned Williams a Ceri John Phillips i helpu i drafod y straeon y tu ôl i fwyd a diwylliant. Trwy adrodd straeon traddodiadol yn Gymraeg, ysbrydolwyd disgyblion i greu eu 'Chwedlau Bwyd' eu hunain gan gyfoethogi eu geirfa yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn ffordd chwareus.

Yn nodedig, roedd y prosiect yn pwysleisio cynaliadwyedd, gan ddefnyddio afalau lleol dros ben a llysiau a dyfwyd yn y gymuned i ddathlu cynnyrch Cymreig a hyrwyddo pwysigrwydd systemau bwyd cynaliadwy. O ganlyniad, dewisodd mwy o ddisgyblion brydau maethlon o'u bwydlen ysgol, gan roi hwb sylweddol i'w mwynhad a'u hyder ynghylch amser cinio.



Amcan 5

# Galluogi cadwyni cyflenwi lleol cryfach, amrywiol

Mae diogelwch a'r gallu i fusnesau a mentrau cymunedol Cymru ennill cyfleoedd yn y farchnad leol yn hanfodol i adeiladu gwytnwch o fewn y system fwyd leol. Mae annog y cyflenwad o fwyd lleol yng Nghymru yn dibynnu ar gael mynediad at alw lleol, fel bod mwy o fwyd a brynir yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru.

## Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma

Mae galw sylweddol gan ddefnyddwyr o Gymru am fwy o gynhyrchion bwyd a diod Cymreig mewn lleoliadau manwerthu a lleoliadau tu allan i'r cartref. Dywedodd tua 8 o bob 10 siopwr y byddent yn dewis cynnyrch Cymreig ar gyfer cynnyrch premiwm a dywedodd 65% y byddent yn talu mwy am gynnyrch o Gymru. Roedd 9 o bob 10 ymwelydd o Gymru yn credu ei bod yn bwysig bod lleoliadau yn cynnig amrywiaeth dda o brydau sy'n cynnwys cynhwysion Cymreig.

Adnewyddwyd Cynllun Gweithredu ar Fanwerthu a Gwasanaeth Bwyd Bwyd a Diod Cymru yn 2024 i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol ar gyfer cadw a thyfu'r rhestrau o gynhyrchion Cymreig mewn lleoliadau manwerthu a gwasanaeth bwyd. Mae amcanion y cynllun yn cynnwys rhaglenni partneriaeth gyda rhwydwaith cynyddol o ddarparwyr manwerthu a gwasanaethau bwyd yng Nghymru. Mae'r economi ranbarthol yn gyffredinol yn dod yn fwy dibynnol ar gyfnewid a throsglwyddo gwybodaeth. Mae rhannu gwybodaeth ar hyd y gadwyn gyflenwi yr un mor bwysig ar gyfer llwyddiant ac ar gyfer creu piblinell o fusnesau bwyd a diod entrepreneuraidd Cymru. Fodd bynnag, yn fwy sylfaenol, mae'n creu'r amodau i gefnogi busnesau gyda materion cydnerthedd er mwyn darparu mwy o sefydlogrwydd i wrthsefyll siociau bwyd.

Adnewyddwyd rhaglen Clwstwr Busnes Bwyd a Diod Cymru yn 2024 i ganolbwyntio ar y prif nod o adeiladu cysylltiadau cydweithredol rhwng busnesau, ac yn ehangach gyda'r gwahanol sefydliadau cymorth i'r sector bwyd yng Nghymru, y byd academaidd a'r llywodraeth. Mae hyn yn helpu busnesau Cymru i gyflymu twf mewn gwerthiant, elw a chyflogaeth – ac felly'n cefnogi datblygiad economïau lleol yng Nghymru. Mae'r clystyrau'n targedu meysydd blaenoriaeth penodol yn niwydiant bwyd a diod Cymru, megis iechyd a maeth, y sector garddwriaeth a gwella effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol cynhyrchu bwyd.

### Trawsnewid caffael cyhoeddus yng Nghymru

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi cadwyni cyflenwi bwyd lleol trwy gynyddu cyfran y bwyd sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol a brynir ar draws y sector cyhoeddus. Byddwn yn parhau i sicrhau bod caffael cyhoeddus yn ffynhonnell hyder sy'n galluogi creadigrwydd a thwf i fusnesau bwyd lleol a mentrau bwyd cymunedol.

Ar hyn o bryd mae gan awdurdodau contractio hyblygrwydd i gynllunio prosesau caffael sy'n targedu anghenion a buddion penodol, ynghyd â gofyniad, o dan Ddeddf Caffael 2023, i ystyried y ffaith y gall mentrau bach a chanolig wynebu rhwystrau penodol i gyfranogiad, ac ystyried a ellir dileu neu leihau rhwystrau o'r fath. Pan fydd yn dod i rym, bydd y ddyletswydd gaffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, trwy gynnal caffael mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol.

Gall caffael sector cyhoeddus chwarae rhan hanfodol wrth ailgyflwyno elfen leol i'r system fwyd yng Nghymru. Mae rhaglenni fel Prydau am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd (UPFSM) yn rhoi hwb i'r galw am fwyd lleol ac yn creu cyfleoedd newydd i gynhyrchwyr lleol gynyddu faint o fwyd Cymreig sydd ar blatiau cyhoeddus. Trwy roi mwy o bwyslais ar ansawdd a buddion cymdeithasol ac iechyd, yn hytrach na chost yn unig, gall timau caffael y sector cyhoeddus wneud y mwyaf o werth cymdeithasol o fewn cymunedau Cymru.

I gynorthwyo gyda hyn, mae adnodd caffael bwyd ar-lein 'Prynu Bwyd sy'n Addas ar gyfer y Dyfodol' wedi'i gynhyrchu. Mae'n cynnwys canllawiau caffael bwyd cyfreithiol 'Pŵer Prynu'r Plât Cyhoeddus', sy'n amlinellu sut y gellir ymgorffori ystyriaethau lleol, gwerth cymdeithasol a gwaith teg mewn contractau bwyd, tra'n parhau i gydymffurfio â rheolau caffael. Mae'r defnydd o'r canllawiau hyn gan awdurdodau lleol wedi'i nodi yn amodau grant UPFSM Llywodraeth Cymru.

Yn hanfodol, mae rhaglenni Llywodraeth Cymru yn cryfhau'r berthynas rhwng cyfanwerthwyr Cymru a thyfwyr lleol, gweithgynhyrchwyr a'r sector cyhoeddus, er enghraifft drwy'r Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol. Mae cyfanwerthwyr o Gymru yn allweddol wrth ddarparu'r cyswllt rhwng cyflenwad bwyd lleol a chontractau'r sector cyhoeddus.

Er enghraifft, mae Gwasanaeth Bwyd Castell Howell a Harlech yn gweithio mewn ffyrdd arloesol gyda thyfwyr a chynhyrchwyr lleol i wneud cynnydd sylweddol yn y cyflenwad o gynnyrch Cymreig a ddosberthir i ysgolion ac ysbytai. Mae Castell Howell wedi adrodd bod gwariant ar fwyd Cymreig wedi cynyddu 173% rhwng 2021 a 2024 (mae rhai cynnydd yn cael eu dosrannu i fwy o werthiannau ar ôl y cyfnod clo a achoswyd gan Covid, a llwyddiant wrth ennill contractau ychwanegol yn y sector cyhoeddus ym mis Mawrth 2024). Er enghraifft, mae Gwasanaeth Bwyd Harlech wedi adrodd cynnydd rhwng 2021 a 2024 o 90% ar gyfer cig o Gymru, 120% ar gyfer llaeth o Gymru a 64% ar gyfer diodydd ysgol o Gymru.





## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

Wrth fynd ymlaen, byddwn yn parhau i ddatblygu rhaglenni masnachol a marchnata cryf a chefnogi ardystiad ar gyfer cynlluniau achredu hanfodol fel SALSA a BRC. Byddwn yn cefnogi busnesau i ddeall data mewnwelediad i'r farchnad ac i arddangos cynnyrch Cymreig mewn digwyddiadau allweddol yn y diwydiant sy'n targedu manwerthu, gwasanaethau bwyd a chaffael cyhoeddus. Byddwn hefyd yn ceisio cyflawni twf flwyddyn ar ôl blwyddyn yn nifer y rhestrau o gynhyrchion Cymreig mewn lleoliadau manwerthu a gwasanaethau bwyd yng Nghymru.

Byddwn yn annog busnesau bwyd a diod yng Nghymru i ffurfio rhwydweithiau newydd er mwyn rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys annog ceisiadau cydweithredol ar gyfer caffael cyhoeddus. Trwy ehangu rhwydweithiau a chlystyrau presennol, byddwn yn annog cysylltiadau cydweithredol newydd a chryfach rhwng tyfwyr lleol, gweithgynhyrchwyr, cyfanwerthwyr, lleoliadau cyhoeddus, manwerthu a gwasanaeth bwyd.

Byddwn yn parhau i weithio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru i nodi cyfleoedd ar gyfer caffael bwyd o ffynonellau lleol mewn lleoliadau fel y sectorau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Wrth wneud hynny, byddwn yn anelu at gynyddu gwariant sector cyhoeddus Cymru ar fwyd o darddiad Cymreig o leiaf 50% erbyn 2030.

Trwy'r adnodd caffael bwyd ar-lein 'Prynu Bwyd Addas i'r Dyfodol', bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo manteision ymgorffori bwyd cynaliadwy lleol mewn caffael cyhoeddus a bydd yn dangos sut y gall caffael helpu i gyflawni Cymru iachach a Chymru fwy cyfoethog.

Mae Mynegai Bwyd Cymru yn cael ei ddatblygu a ddylai helpu i gynyddu faint o fwyd Cymreig sy'n cael ei brynu mewn ysgolion ac ysbytai. Bydd hwn, i'w ddefnyddio mewn tendrau bwyd, yn helpu i asesu 'Cymreictod' cynhyrchion sy'n cael eu prynu ac yn priodoli sgôr yn ôl y gwerth y maent yn ei ychwanegu i Gymru.



## Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion: tunelli o newidiadau diolch i lysiau organig

Trwy fanteisio ar y cyfle marchnad y mae polisi Prydau Ysgol Am Ddim i Bawb Llywodraeth Cymru yn ei greu, a thrwy gefnogi cyrff cyhoeddus i fodloni eu gofynion statudol, mae Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn cataleiddio cynhyrchu llysiau organig yng Nghymru ac yn meithrin gwytnwch ar gyfer y dyfodol.

Mae'r gwaith hwn yn hanfodol i helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), tra'n cefnogi cymunedau lleol ac adeiladu gwytnwch yn erbyn siociau a newid hinsawdd yn y dyfodol.

Dechreuodd Synnwyr Bwyd Cymru archwilio'r broses o gaffael llysiau a gynhyrchwyd yn lleol am y tro cyntaf gyda'r 'Cynllun Peilot Courgettes' – prosiect peilot a oedd yn cynnwys un tyfwr ac un cyfanwerthwr ac a lwyddodd i ddanfon bron i dunnell o gourgettes i ysgolion cynradd yng Nghaerdydd yn ystod Bwyd a Hwyl yn haf 2022.

Yn 2023, gyda chefnogaeth Cronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol Llywodraeth Cymru, datblygodd y prosiect i fod yn gam cyntaf Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion, gan weithio gyda thri thyfwr ar draws tair ardal Awdurdod Lleol gyda chefnogaeth cydlynwyr o'r Partneriaethau Bwyd lleol yng Nghaerdydd, Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy.

Mae Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn cydnabod bod caffael llysiau Cymreig a chynaliadwy'n ddrytach ar hyn o bryd ac mae'r cynllun peilot yn talu'r gwahaniaeth rhwng y pris hwnnw a'r pris arferol y mae Awdurdod Lleol yn ei dalu, tra'n archwilio mecanweithiau i bontio'r bwlch hwnnw.

Ar ôl sicrhau cyllid ychwanegol yn 2024, gwnaeth y prosiect gynyddu'r gwaith ymhellach a manteisio ar rwydwaith ehangach fyth o arbenigedd a chymorth. Mae hyn wedi arwain at ragolwg ar gyfer 2025 o weithio gyda 12 awdurdod lleol a phartneriaethau bwyd, i ddosbarthu 200,000 tunnell o lysiau organig i 307 o ysgolion, sy'n cyfateb i filiwn o ddognau.

Eu cenhadaeth yw datblygu model y gellir ei ehangu ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac erbyn 2030 bod chwarter yr holl lysiau sy'n mynd i ysgolion Cymru yn lleol ac yn organig.



Amcan 6

# Galluogi tyfu cymunedol a garddwriaeth

Yn y gorffennol, roedd gan Gymru ddiwydiant garddwriaethol cyfoethog ac amrywiol. Yn sgil y newid tuag at system fwyd fyd-eang gydag arbenigedd, cynyddodd yr arbedion maint ac arweiniodd hyn at ddirywiad sylweddol yng nghynhyrchiad garddwriaeth yng Nghymru ac, yn wir, ledled y DU.

Mae garddwriaeth ar raddfa fach yng Nghymru yn cyflwyno nifer o gyfleoedd a manteision, yn enwedig o ran cynaliadwyedd amgylcheddol a bioamrywiaeth. Trwy hyrwyddo cynhyrchu bwyd lleol, gall garddwriaeth ar raddfa fach leihau'r ôl troed carbon a ddaw o gludo bwyd a gall gyfrannu at ddiogeledd bwyd. Yn ogystal, mae'n cefnogi bioamrywiaeth trwy annog tyfu amrywiaeth o gnydau, a all wella iechyd y pridd a darparu cynefinoedd i beillwyr a bywyd gwyllt arall.

Mae garddwriaeth ar raddfa fach hefyd yn cynnig manteision economaidd, fel creu cyfleoedd cyflogaeth lleol a chefnogi economïau gwledig. Trwy ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol, gall garddwriaeth ar raddfa fach ychwanegu gwerth at gynnyrch Cymru a chryfhau enw da Cymru fel cenedl fwyd.



## Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma

Mae gennym ystod o fentrau i gefnogi datblygiad garddwriaeth yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

### Cynllun Datblygu Garddwriaeth

Cyllid i gefnogi garddwriaethwyr i ddod yn fwy cystadleuol ac ehangu eu busnesau mewn modd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.

### Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth

Yn cefnogi mentrau garddwriaeth masnachol newydd, naill ai fel arallgyfeirio o fewn busnesau amaethyddol presennol neu fel mentrau annibynnol.

### Hyfforddiant a Datblygu

Mae rhaglenni a ddarperir gan Lantra trwy Cyswllt Ffermio yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth i arddwriaethwyr.

### Gweithgor ar Arddwriaeth

Datblygu atebion i gynllunio rhwystrau rheoli a gwella mynediad i dir trwy argaeledd asedau.

### Y Clwstwr Garddwriaeth

Cefnogi cydweithio, cyfnewid gwybodaeth a rhwydweithio yn y sector garddwriaeth yng Nghymru. Mae'r grŵp yn nodi ac yn datblygu clystyrau garddwriaethol o fusnesau, yn enwedig ym maes cynhyrchu bwyd ac amwynderau, a allai weithredu mewn cadwyni cyflenwi byr.

### Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol (Clas Cymru)

Wedi'i ddarparu gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol drwy gyllid Llywodraeth Cymru, mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaeth cymorth arbenigol ar gyfer dechrau mentrau a threfnu prosiectau mannau gwyrdd a arweinir gan y gymuned yng Nghymru.

### Grant Cymorth Rhandiroedd Llywodraeth Cymru

Ers 2021, mae Grant Cymorth Rhandiroedd Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £2.8 miliwn ar draws awdurdodau lleol i helpu i wella a chynyddu'r ddarpariaeth rhandiroedd, a bydd y cymorth hwn yn parhau gyda £600k arall i'w ddyrannu yn 2025-26. Mae'r ASG yn darparu cyllid cyfalaf i awdurdodau lleol, gyda chyfle i awdurdodau lleol ddewis gwario'r cyllid yn uniongyrchol, dyrannu cyllid i brosiectau cymunedol, defnyddio gwasanaethau rhwydwaith cefnogi i ddod o hyd i brosiectau addas, neu gyfuniad o'r rhain i gyd.

### Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol

Mae cymorth ariannol drwy'r Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol wedi galluogi prosiect, a ddarperir gan Social Farms & Gardens, i ehangu ar bolisi a chanllawiau cenedlaethol presennol ar gyfer Anheddau Mentrau Gwledig, er mwyn mynd i'r afael ag amgylchiadau penodol mentrau garddwriaethol ar raddfa lai.

# Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

## Mynd i'r afael â'r rhwystrau

Comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad, **Rhwystrau sy'n atal Datblygiadau Garddwriaethol Bychain yng Nghymru**, yn cynnwys nifer o argymhellion i fynd i'r afael â rhwystrau gwirioneddol a chanfyddedig i ddatblygu garddwriaeth ar raddfa fach. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu y camau hyn.

Mae'r sector garddwriaeth yn cynnwys llawer o gyflenwyr bach. O ganlyniad, byddwn yn diweddaru Polisi Cynllunio Cymru i bwysleisio'r ffocws a'r pwysigrwydd penodol a roddwn ar arddwriaeth fel defnydd tir, gan gydnabod ei anghenion unigryw o ran gweithrediad. Nod y diweddariad yw cynyddu garddwriaeth ar raddfa fach yng Nghymru drwy gyfeirio'n benodol at arddwriaeth, ein diffiniad o'r sector a'n gweledigaeth ar gyfer y sector. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol ac ymgeiswyr i gael yr ymwybyddiaeth a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer caniatâd cynllunio. Byddwn wedyn yn ceisio diweddaru Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) perthnasol i adlewyrchu ein huchelgeisiau i ehangu'r sector garddwriaethol yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnig eglurder i swyddogion cynllunio a thyfwyr, gan gydnabod y gofynion gwahanol ar gyfer gwerthuso ceisiadau cynllunio garddwriaethol o gymharu â'r canllawiau amaethyddiaeth ehangach cyfredol. Rydym am i'r canllawiau alluogi gwelliannau i ansawdd a gwerthuso ceisiadau cynllunio a phrydlondeb cymeradwyaethau. Mae ein gwaith gyda rhanddeiliaid yn nodi'r rhain fel camau cyntaf allweddol tuag at alluogi'r sector i dyfu.

## Cysylltu tyfwyr â chadwyni cyflenwi lleol

Byddwn yn cyflawni twf flwyddyn ar ôl blwyddyn o ran argaeledd ac amrywiaeth cynnyrch garddwriaethol lleol ac yn creu cysylltiadau cadwyn gyflenwi bwyd lleol newydd ar gyfer tyfwyr cymunedol a ffermwyr.

Bydd Partneriaethau Bwyd Lleol yn creu cysylltiadau bwyd lleol newydd ac yn adeiladu ar y rhai presennol, ar draws amaethyddiaeth, busnesau bwyd, cyfanwerthwyr, mentrau cymunedol, a'r sector cyhoeddus. Bydd hyn yn ei dro yn annog mwy o bobl i ddewis cynnyrch lleol.

Yn bwysig, bydd hyn hefyd yn cefnogi camau gweithredu cydweithredol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy trwy helpu ffermwyr i ymgysylltu â sefydliadau ehangach ar brosiectau ar y cyd, yn enwedig ar gyfer datblygu cyfleoedd cyflenwi lleol.

Byddwn yn gweithio gydag ystod o gyrff cymorth perthnasol, megis Social Farms & Gardens, ac yn ehangach gyda Phartneriaethau Bwyd Lleol i ehangu mentrau tyfu cymunedol, gan gynnwys trwy ddatblygu atebion i'r rhwystrau presennol. Er enghraifft, byddwn yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau seilwaith rhanbarthol sy'n ymwneud â phrosesu a phecynnu cynnyrch lleol. Gall sefydliadau sy'n canolbwyntio'n lleol deilwra atebion er mwyn diwallu anghenion lleol, fel yr adlewyrchir gan waith Edible Cardiff, Grow Cardiff, Food Cardiff, a nifer o rai eraill, i gynyddu faint o fwyd amaeth-ecolegol a gynhyrchir yn ardaloedd trefol ac amdrefol Caerdydd.



## Ehangu Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned

Mae tyfu cymunedol ac Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (CSA) yn cynnig manteision sylweddol i unigolion a chymunedau. Mae CSA yn meithrin partneriaeth rhwng ffermwyr a defnyddwyr i rannu risgiau a manteision mentrau ffermio. Gall y model hwn annog twf mewn cynhyrchu bwyd amaeth-ecolegol, ac arwain at allyriadau carbon is, bioamrywiaeth uwch, a lles anifeiliaid gwell.

Fodd bynnag, mae enghreifftiau o CSA yn brin yng Nghymru ac yn wynebu nifer o heriau, gan gynnwys sefydlogrwydd ariannol, aelodaeth amrywiol, mynediad at dir a chynnal lefelau ymwybyddiaeth ac ymgysylltu. Byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu mwy o fusnesau newydd CSA ac yn cynyddu argaeledd tir i'w cefnogi.

Byddwn yn gweithio gydag Ystadau Cymru i annog cyrff cyhoeddus i wella mynediad at dir drwy ailbwrpasu, prydlesu a darparu cymorth meddal, megis defnyddio allbynnau gan y Comisiwn Asedau Cymunedol.



## Social Farms & Gardens: gweithgareddau natur i hybu iechyd a lles

Mae Social Farms & Gardens yn elusen ledled y DU sy'n cefnogi cymunedau i ffermio, garddio a thyfu gyda'i gilydd.

Eu cenhadaeth yw gwella iechyd a lles unigolion, cymunedau a'r amgylchedd trwy gynnig gweithgareddau natur sy'n galluogi pobl a chymunedau i gyrraedd eu llawn botensial, fel rhan o fywyd bob dydd.

Maent yn eirioli ac yn ymgyrchu am fwy o gydnabyddiaeth, cyllid a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau natur, gan ddarparu llais unedig i sefydliadau a grwpiau sy'n cyflwyno mentrau o'r fath. Trwy ddylanwadu ar lunwyr polisi a gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau gwirfoddol, cyhoeddus, preifat ac academaidd, maent yn ceisio gwella iechyd a lles unigolion, cymunedau a'r amgylchedd.

Trwy ddarparu cyngor arbenigol, cefnogaeth a chynllun aelodaeth am ddim i gefnogi cymunedau i dyfu mewn ffyrdd cynaliadwy, maent yn cefnogi miloedd o sefydliadau llawr gwlad o leiniau ffrwythau a llysiau bach ar ystadau tai trefol i ffermydd gofal gwledig ar raddfa fawr, gan drawsnewid bywydau a chysylltu pobl. Ymhlith y canlyniadau allweddol yng Nghymru mae helpu 122 o berllannau cymunedol i ffynnu, rhedeg pum canolfan fwyd, creu 147 o leiniau rhandiroedd ar draws 15 o safleoedd, a helpu datblygu dros 500 o fannau bwyd cymunedol ledled Cymru.

Gan edrych i'r dyfodol, mae Social Farms & Gardens yn bwriadu cadw eu rôl arwain, gan gefnogi ac arwain sbectrwm o fentrau ar gyfer aelodaeth sy'n tyfu. Bydd prosiectau'n adeiladu ar lwyddiannau presennol ac yn chwilio am ffyrdd arloesol, gan gynnwys cynyddu mentrau tyfu cymunedol i lefelau sy'n fasnachol hyfyw, cefnogi sefydlu a rhedeg Ffermydd Gofal newydd, mentora, annog a hyfforddi gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol.


















## Cae Tân: ffermio traddodiadol a lleol mewn byd cynyddol unffurf

Ffurfiwyd Cae Tân yn 2015, yn brosiect amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned ar Benrhyn Gŵyr.

Ethos Cae Tân yw dod â gwerthoedd traddodiadol ffermio ar y tir yn ôl, ac maent yn croesawu natur dymhorol a lleol cynhyrchion. Mae'r galw am lysiau sy'n tyfu'n gyflym ac yn niferus ac sy'n cydymffurfio â maint safonol, wedi arwain at brosesau i greu cynhyrchion unffurf ar raddfa fawr sy'n fecanyddol iawn ac yn ddrud iawn. Mae hyn wedi gwneud arferion ffermio traddodiadol yn fwyfwy anghynaladwy.

Mae Cae Tân, a phrosiectau amaethyddiaeth eraill a gefnogir gan y gymuned, yn rhoi hinsawdd, amgylchedd ac ansawdd pridd wrth galon eu prosiectau ac yn credu bod y gwerthoedd hyn gan lawer mwy o bobl. Amlygir hyn gan gynnydd yn nifer yr aelodau a bod y galw am gynnyrch lleol yn parhau i dyfu. Maent yn tyfu cynnyrch organig, lleol a heb gemegau, gan gyflenwi tua 130 o gartrefi bob wythnos, trwy gydol y flwyddyn. Mae'r bocsys cynnyrch yn cael eu casglu o ganolfan fwyd leol.

Mae llwyddiant Cae Tân wedi galluogi 4 tyfwr llawn amser i gael eu cyflogi. Mae tua 30 o wirfoddolwyr rheolaidd a hyfforddiant parhaus i dyfwyr newydd bob tymor hefyd. Yn wir, mae'r effaith gadarnhaol a welir gan y rhai sy'n mynychu Cae Tân yn mynd ymhell y tu hwnt i dyfu llysiau, gyda lles cymdeithasol, corfforol a meddyliol yr holl wirfoddolwyr, staff, a hyfforddeion yn ganlyniad yr un mor hanfodol.

Mae'r effaith ehangach yn cynnwys ennyn diddordeb ac addysgu ysgolion lleol, tra bod y gymuned hefyd yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i gymryd rheolaeth o'u systemau bwyd, sy'n helpu gyda chynaliadwyedd a chynyddu bioamrywiaeth systemau bwyd Cymru.



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

bwyd-food@gov.wales

gov.wales/foodanddrinkwales